**Kirsty Williams AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-P/KW/0003/18

Siân Gwenllian AC
Cadeirydd Dros Dro
Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Sian.Gwenllian@cynulliad.cymru

4 Ionawr 2018

Annwyl Siân,

**Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2018-19**

Diolch am eich llythyr, 1 Rhagfyr 2017, yn sgil ystyriaethau Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu o gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer cyllideb ddrafft 2018-19.

Codwyd nifer o bwyntiau gennych yn ymwneud â darpariaeth ar gyfer y celfyddydau - yn enwedig cerddoriaeth - mewn addysg. Rwy'n ymateb i bob un o'r pwyntiau hyn isod:

**Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau**
*Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ffaith eich bod yn cydnabod pa mor bwysig yw'r manteision ehangach a ddaw yn sgil celfyddyd a cherddoriaeth mewn addysg plant a'r ffaith bod cyllid yn parhau i fod ar gael drwy'r rhaglen Dysgu Creadigol Drwy'r Celfyddydau. Gwnaethoch sôn yn benodol am elfen o'r rhaglen o'r enw 'Ewch i Weld', gan gynnig darparu dadansoddiad o nifer yr ysgolion a phlant sydd wedi cymryd rhan yn ôl ardal awdurdod lleol.*

**Ymateb**

Mae gwybodaeth am y niferoedd a gafodd grant *Ewch i Weld* hyd yn hyn isod.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

| Awdurdod | Nifer yr Ysgolion | Nifer y Disgyblion |
|---|---|---|
| Ynys Môn | 3 | 184 |
| Blaenau Gwent | 4 | 252 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 13 | 869 |
| Caerffili | 7 | 392 |
| Caerdydd | 29 | 2182 |
| Sir Gaerfyrddin | 15 | 510 |
| Ceredigion | 11 | 985 |
| Conwy | 6 | 221 |
| Sir Ddinbych | 9 | 368 |
| Sir y Fflint | 11 | 755 |
| Gwynedd | 22 | 1747 |
| Merthyr Tudful | 5 | 315 |
| Sir Fynwy | 3 | 209 |
| Castell-nedd Port Talbot | 6 | 385 |
| Casnewydd | 8 | 547 |
| Sir Benfro | 6 | 293 |
| Powys | 37 | 2175 |
| Rhondda Cynon Taf | 16 | 1311 |
| Abertawe | 26 | 2074 |
| Torfaen | 2 | 60 |
| Bro Morgannwg | 12 | 1056 |
| Wrecsam | 11 | 553 |

**Menter Cerddoriaeth mewn Ysgolion**
*Mae'r Pwyllgor hefyd yn croesawu'r cyllid ychwanegol o £1 miliwn bob blwyddyn am y ddwy flynedd nesaf ar gyfer mentrau cerddoriaeth mewn ysgolion. Gwnaethom nodi eich bod yn dal i ystyried sut y gellid defnyddio'r cyllid hwn a'ch bod yn gobeithio manteisio ar dystiolaeth o'r adroddiad ar ymchwiliad y Pwyllgor yn y maes hwn. Er bod hyn i'w groesawu, byddai'n galonogol gwybod a oes gan y Llywodraeth ei hun unrhyw fwriad penodol ar gyfer y cyllid hwn? Byddai'r Pwyllgor hefyd yn ddiolchgar o gael gwybod a ydych yn bwriadu ymgynghori ymhellach â rhanddeiliaid ar ffyrdd posibl o ddefnyddio'r cyllid, a byddai'n canmol dilyn y trywydd hwnnw os felly.*

**Ymateb**

Rwy'n ystyried amryw opsiynau o ran y dulliau gorau o wneud y defnydd mwyaf o'r adnoddau cyllid ychwanegol, yn unol ag argymhellion Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Gwasanaethau Cerddoriaeth. Mae fy swyddogion mewn cysylltiad â CLlLC, sy'n elfen hanfodol o'r broses hon.

**Cronfa Ddata o Offerynnau Cerddorol**
*Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y grŵp gorchwyl a gorffen cerddoriaeth wedi argymell y dylid sefydlu cronfa ddata o offerynnau cerdd. Ers hynny, rydym wedi cael tystiolaeth gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru sy'n awgrymu y gellid bodloni nodau'r syniad o gronfa ddata drwy fuddsoddi llai o gyllid. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wrthym y byddai angen talu costau sefydlu sylweddol a defnyddio llawer o adnoddau yn barhaus i gynnal y syniad hwnnw, a bod yna sianelau cyfathrebu eisoes wedi'u sefydlu rhwng awdurdodau sy'n galluogi gwasanaethau cerdd i ofyn am gymorth wrth gael gafael ar offerynnau cerddorol o ardal awdurdod lleol arall.*

*Awgrymodd y byddai'n fwy buddiol defnyddio'r cyllid ychwanegol mewn ffyrdd eraill a allai sicrhau gwaddol mwy hirdymor, yn hytrach na phrynu offerynnau newydd. Gallai hyn gynnwys cynnal a chadw'r offerynnau a brynwyd eisoes. Gwnaethoch egluro na chodwyd y pryderon hyn gyda chi mewn trafodaethau â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Fodd bynnag, byddai'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi unrhyw syniadau pellach sydd gennych yn y maes hwn.*

**Ymateb**

Rhoddodd Llywodraeth Cymru £220,000 i awdurdodau lleol i brynu offerynnau cerddorol yn 2016-17. Rhoddwyd y cyllid ar yr amod bod awdurdodau lleol yn ymchwilio i sefydlu cronfa ddata genedlaethol i sicrhau bod offerynnau yn cael eu rhannu ar draws awdurdodau lleol. Ers hynny, mae CLlLC wedi nodi ei bod yn ystyried rhoi pob awdurdod lleol ar yr un feddalwedd rheoli offerynnau er mwyn creu'r gronfa ddata hon. O ran cynnal a chadw'r offerynnau, hoffwn roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi ar yr Amnest Offerynnau Cerddorol a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf - mae'r offerynnau a gyfrannwyd yn garedig iawn gan ACau a staff yn cael eu hatgyweirio gan fyfyrwyr Coleg Brenhinol Cerdd a Drama - unwaith y byddant wedi'u hatgyweirio byddwn yn sicrhau bod yr offerynnau hyn yn cael eu dosbarthu i awdurdodau lleol i bobl ifanc eu defnyddio.

**Codi Arian - Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru a'r Gronfa Gwaddol Cerddoriaeth**

*Soniodd yr Aelodau am y posibilrwydd o ddryswch rhwng cyfleoedd i godi arian ar gyfer Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru a'r Gronfa Gwaddol Cerddoriaeth. Cyhoeddwyd y Gwaddol yn gynharach eleni â chyllid o £1 miliwn a gwnaethoch ddweud wrthym y byddai'n cael ei lansio'n ffurfiol gyda'r Cyngor Celfyddydau ym mis Ionawr. Fodd bynnag, o ystyried y pryderon hyn, byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech fyfyrio ymhellach ar y mater hwn a sut y gellid mynd i'r afael ag unrhyw bosibilrwydd o ddryswch.*

**Ymateb**

Rydym yn cymryd gofal mawr i sicrhau nad oes unrhyw ddryswch ac nad yw codi arian ar gyfer Cronfa Gerddoriaeth Cymru (y Gwaddol) yn effeithio ar weithgareddau codi arian ar gyfer cymdeithasau celfyddydau sydd eisoes yn bod, gan gynnwys Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru, nac yn cystadlu â nhw.

Mae Cronfa Gerddoriaeth Cymru yn rhywbeth newydd, arloesol a fydd, rwy'n siwr, yn dal dychymyg y cyhoedd. Rydym yn cydweithio'n agos â Chyngor Celfyddydau Cymru i ddatblygu strategaeth gyfathrebu glir, gan ganolbwyntio ar weithgareddau cyllido hirdymor a chreu brand a fydd yn apelio at ddarpar-gefnogwyr ac at bobl ifanc.

Mae'r strategaeth i godi arian ar gyfer y Gronfa yn sylweddol wahanol i weithgareddau eraill ym maes nawdd y celfyddydau. Un o ffactorau mwyaf cadarnhaol y Gronfa yw y bydd yn targedu gwahanol ffynonellau cymorth i'r rhai y mae sefydliadau'r celfyddydau yn troi atynt yn rheolaidd ar gyfer prosiectau neu gynyrchiadau penodol; megis treth wirfoddol ar docynnau.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru wedi ystyried strategaeth arloesol, uchelgeisiol i greu ac ariannu'r Gronfa. Mae'n dibynnu ar haenau o ffactorau ac mae sawl elfen i'w strategaeth gyllido, gan adeiladu ar y cyllid sbarduno y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu yn y cyfnod cychwynnol hwn.

Mae Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru yn teilwra dull o ddenu cefnogaeth i'w weithgareddau ac o fanteisio ar ffynonellau rhoddion a nawdd. Bellach, mae mewn sefyllfa well i allu gwneud hyn nag yr oedd yn y gorffennol.

Bydd Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru yn parhau i gael cyllid oddi wrth Gyngor Celfyddydau Cymru tra rydym yn gweithio i sicrhau bod awdurdodau lleol hefyd yn parhau i gefnogi'r sefydliad sy'n cynnig cymaint o fanteision i'w dinasyddion. Bydd yn allweddol i Gelfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru greu cyllid drwy nawdd, ac rwyf ar ddeall ei fod eisoes yn ystyried yr opsiwn hwn mewn perthynas â Chyngor Celfyddydau Cymru a noddwyr posibl.

Yn olaf, gallai Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru gael mynediad i Gronfa Gerddoriaeth Cymru, unwaith y bydd wedi'i sefydlu, yn hytrach na bod y Gronfa yn cystadlu ag ef, er mwyn cefnogi ei strwythur cyllid. Caiff cylch gorchwyl y Gronfa ei drafod gyda'r sector, gan gynnwys Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru, a bydd angen chwilio am gyfleoedd i gydweithio mewn partneriaeth.

Yn gywir

**Kirsty Williams AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg